Masonic Charitable Foundation

2028 FESTIVAL


# APÊL GŴYL 2028 GOGLEDD CYMRU



Yn cefnogi eich elusen saeryddol

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol: #FEST2028

# Neges PFyD (Prif Feistr y Dalaith)



John Charles Hoult
**Prif Feistr Y Dalaith**

## Cofiwn fel ddoe am lwyddiant ysgubol Gŵyl 2017 tuag at Ymddiriedolaeth y Genethod a'r Bechgyn.

Ffurfiwyd Y Sefydliad Elusengar Saeryddol yn 2016 gan uno gwaith y pedair elusen ganolog. Ers hyn, ac yn arbennig trwy gydol 2020/21, cefnogwyd yn hael ein cymunedau lleol yng Ngogledd Cymru, elusennau a Seiri Rhyddion, gyda gwasanaethau a grantiau oedd eu gwir angen.

Mae codi arian ar gyfer yr SES yn hanfodol i barhad ei gefnogaeth i ni oll ac 'rwy'n falch o allu lansio ein Gŵyl 2028 a'n hymrwymiad i godi £2.5 miliwn, fydd yn gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau'r Seiri Rhyddion, eu teuluoedd a'r rhai mewn angen yn ein cymdeithas ehangach. 'Rwy'n sicr y byddwn yn cyfrannu a chyfranogi gyda'r un dygnwch a brwdfrydedd a roddwyd i'r Gwyliau blaenorol.

Frodyr, ymfalchïwch yn ein Gŵyl 2028 a mwynhewch pob eiliad ar hyd y ffordd er mwyn ei wneud yn achlysur byth cofiadwy yn ein bywydau. Diolchaf ymlaen llaw am yr hyn 'rwy'n gwybod bydd eich cefnogaeth lawnaf i'r Ŵyl. Gallwch chwithau wneud gwahaniaeth a bod yn falch o fod yn rhan o wneud ein byd yn le gwell i bawb.

**Gellir dilyn y datblygiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Ŵyl ar y cyfryngau cymdeithasol**

**#FEST2028**

# Pam ddylwn i gefnogi Apêl Gŵyl 2028 Gogledd Cymru?

## Eich elusen chi yw'r SES

Mae gan Saeryddiaeth hanes hir a balch o gyfrannu tuag at elusennau, sy'n parhau heddiw trwy ymdrechion y Sefydliad Elusengar Saeryddol (SES).

Mae'r SES yn ymdrechu i sicrhau gwell bywydau trwy annog cyfleoedd, hyrwyddo annibyniaeth a gwella lles Seiri Rhyddion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae'r SES yn ddibynnol ar Seiri Rhyddion a'u teuluoedd i adnabod yr anghenus ac i ddarparu'r rhoddion hael sy'n ariannu eu holl waith.

### Mae'r SES yn cefnogi'n flynyddol

**5,000** aelod o'r gymuned saeryddol gyda thros **£15 miliwn** …

…. A channoedd o elusennau gyda chyfanswm grantiau o **£5.5 miliwn**

### Trwy fod yn cyfrannu i'r SES gallwch fod yn.

- Galluogi teuluoedd i gael dau ben llinyn ynghyd pan fo amser yn anodd iddynt
- Cefnogi pobl ag anabledd i deimlo'n fwy annibynnol
- Rhoi cyfle i bobl ifanc lwyddo ym myd addysg
- Sicrhau gofal o safon uchel i'r henoed, anabl a'r difrifol wael
- Ariannu triniaethau meddygol hanfodol
- Ymateb i unigrwydd ac arwahanrwydd
- Cynyddu ymchwil feddygol arloesol

### Cefnogaeth yng Ngogledd Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf*

CEFNOGODD SES

**50** AELOD O'R GYMUNED SAERYDDOL Â CHYFANSWM GRANTIAU O **£202,800**

**21** O ELUSENNAU LLEOL GYDA CHYFANSWM O **£84,063**

**£3,100,000** YN YSTOD APÊL 2017 GOGLEDD CYMRU AR GYFER

**YMDDIRIEDOLAETH SAERYDDOL FRENHINOL Y GENETHOD A'R BECHGYN**

A LINIARODD DLODI AC A CHYNYDDODD ADDYSG I RODDI I BLANT A PHOBL IFANC Y CYFLE GORAU MEWN BYWYD.

# Cefnogaeth i Seiri Rhyddion Gogledd Cymru: Geoffrey Rayner

**ERS SEFYDLU'R SES YN 2016 LLWYDDWYD I GEFNOGI 446 O SEIRI RHYDDION GOGLEDD CYMRU NEU AELODAU O'U TEULUOEDD GYDA CHYFANSWM O GRANTIAU CYFWERTH AG £1,202,886**

Yn ystod Rhagfyr 2019 dechreuais gael poenau yn fy nghlun. Yn dilyn ymweliadau â'r meddyg a thriniaethau, tybwyd fod gennyf arthritis a bod y boen yn deillio o asgwrn yn crafu ar asgwrn.

"Erbyn hyn 'roeddwn yn cymryd tabledi cryf at y boen. Er hyn ni allwn gerdded ymhell. Ni allwn hyd yn oed wneud gwaith syml ac 'roeddwn yn dibynnu ar fy ngwraig i roi sanau am fy nhraed. 'Roedd cwsg bron yn amhosibl oherwydd y boen. Cafodd hyn oll effaith negyddol ar fy mywyd teuluol a'm hiechyd meddwl gan fy ngadael ag iselder.

Derbyniais lythyr gan y meddyg ym Medi 2020 yn datgan fy mod wedi fy rhoi ar restr aros arbennigwr ond fod yna gyfnod o leiaf 12 mis cyn y byddwn yn derbyn sylw a hyd at dair blynedd i aros wedyn am driniaeth lawfeddygol. Yn teimlo'n ddigalon, penderfynais gysylltu â'r SES ond oherwydd y COVID dim ond achosion difrifol iawn oedd yn cael eu prosesu. Addawyd y byddai fy nghais yn cael sylw maes o law."

> *Byddaf yn dragwyddol ddiolchgar i'r SES am eu cefnogaeth a'u cymorth ac yn wirioneddol werthfawrogol o haelioni'r Brodyr sy'n cyfrannu'n rheolaidd i Elusennau Saeryddol."*
>
> **Geoffrey, Saer Rhydd**

*Diolch byth cefais fy llawdriniaeth ar 22ain Mai 2021. Newidiodd hyn fy mywyd i, fy ngwraig a'm teulu.



# Cefnogaeth i Elusennau Gogledd Cymru: Cyswllt

contact
For families with disabled children

**MAE'R SES ERS 2016 WEDI CEFNOGI 57 O ELUSENNAU YNG NGOGLEDD CYMRU GYDA CHYFANSWM GRANTIAU HYD AT £461,777**

Am wybodaeth bellach am grantiau'r SES ar gyfer elusennau ac apeliadau brys ewch ar:

**mcf.org.uk /community**

Mae teuluoedd sydd â phlant anabl wedi eu hynysu yn y Gogledd Ddwyrain, yn mwynhau Ysgol Goedwig. Mae'r elusen ar gyfer teuluoedd â phlant anabl yn cynnal gweithgareddau hwyliog ar Ystâd Penarlâg, Gogledd Cymru. Mae plant anabl a'u teuluoedd wedi mwynhau Ysgol Goedwig yn rhad ac am ddim. Canlyniad hyn fu, hwyl, meithrin hyder a lleihau ynysrwydd, Diolch i'r grant o **£150,000** gan Seiri Rhyddion Gogledd Cymru a'r SES.

> *Rydym yn hynod ddiolchgar i Seiri Rhyddion Gogledd Cymru am y grant hael. Gall teuluoedd â phlant anabl deimlo'n unig ac ynysig am nad ydynt yn ymwybodol o eraill yn yr un sefyllfa a hwy. Mae effaith COVID19 wedi gwaethygu'r sefyllfa. Mae ein digwyddiadau Gwell Gyda'n Gilydd yn foddion perffaith.Nid yn unig ydynt yn ddigwyddiadau yn cynnig profiadau hwyliog, maent hefyd yn codi hyder ac yn gyfle i wneud ffrindiau a chefnogi rhwydweithiau."*
>
> **Lizzie Salter**
> Rheolwr Digwyddiadau
> Gwell Gyda'n Gilydd



# Sut allai fod o gymorth i'r ŵyl?

Trwy gymryd dim ond un o'r camau canlynol gallwch wneud gwahaniaeth sylweddol i Apêl Gŵyl 2028 Gogledd Cymru a'r bobl a gefnogwn:

1. **Cyfrannwch**
2. **Dwedwch wrth bawb**

## 1 Cyfrannwch

Mae yna lawer ffordd y gallwch gyfrannu i Apêl Gŵyl 2028 Gogledd Cymru boed yn un cyfraniad neu yn ymrwymiad tymor hir.

### Cyfrannu gan Ddefnyddio côd QR

Sganiwch y côd QR yma gyda'ch ffôn:

**Gwneud un taliad:**

**Gwneud taliadau rheolaidd:**

### Cyfrannu dros y ffôn

Gwnewch un cyfraniad neu gosodwch gyfraniad rheolaidd:

**020 3146 3352**

### Dewch i gyswllt

Am gyfarwyddyd pellach cysylltwch â thîm Gogledd Cymru:

**2028sec@nwmasons.org**

**01492 860223**

**Prif Gyfrinfa Talaith Gogledd Cymru,
8 Mostyn Avenue,
Craig-Y-Don Llandudno
LL30 1YS**

### Cyfrannwch ar lein

Gwnewch daliad unigol neu osod taliadau tros gyfnod:

**mcf.org.uk/regular-donation-FEST2028**

### Cyfrannwch trwy decst

Cyfrannwch £5 trwy dectsio FEST2028 i:

**70500**

### Defnyddiwch amlenni Cymorth Rhodd

Mae gan yr SES gyflenwad o'r amlenni hyn ar gyfer casgliadau o bob math. Gall defnydd ohonynt ychwanegu hyd at 25 y cant i gyfraniadau dilys.

Gellir archebu'r amlenni o swyddfa'r dalaith.

### Defnyddiwch ffurflenni papur

Dychwelwch y ffurflenni a'r amlenni i:


**Relief Chest Scheme
Masonic Charitable Foundation, 60 Great Queen Street,
London WC2B 5AZ**




# Mae newidiadau bach yn gwneud gwahaniaeth mawr.




**Stiward: £600**
**Noddwr: £1,000**
**Prif Noddwr: £1,500**





## Anrhydeddau unigol

Mae Talaith Gogledd Cymru yn awyddus i ddiolch i'r Brodyr am eu cyfraniadau i'r Ŵyl, sy'n cyfrannu i'w llwyddiant.

Mae amrediad o anrhydeddau fydd yn cael eu rhannu ar sail maint y cyfraniadau a roddwyd neu addawyd ar ffurf cyfraniadau rheolaidd. Byddai arwyddo Debyd Uniongyrchol dros chwe mlynedd cyfwerth â'r anrhydeddau yn sicrhau tlws yr Ŵyl i chwi yn awr heb orfod disgwyl am chwe mlynedd.

Mae'r Dalaith yn deall yn iawn na fydd cyfrannu ar gyfer anrhydedd o fewn cyrraedd pob Brawd. P'ryn bynnag gwerthfawrogir pob cyfraniad a chefnogaeth tuag at yr Ŵyl.

## Anrhydeddau Cyfrinfa

Bydd gwobrwyon ar gyfer Cyfrinfaoedd yn ddibynnol ar y ganran o aelodau sydd wedi ymrwymo i Ŵyl 2028 trwy gwblhau mandad Debyd Uniongyrchol i Gist Gymorth yr Ŵyl.

**Efydd – 40 y cant**
**Arian – 60 y cant**
**Aur – 80 y cant**
**Platinwm – 100 y cant**

## Siapteri

Mae'r siapteri hefyd yn rhan o'r Ŵyl. Gwerthfawrogir unrhyw gyfraniad trwy raffyl, amlenni a gweithgareddau penodol. Cydnabyddir unrhyw gyfraniad.

## Cymorth Rhodd

Gall eich cyfraniadau ar gyfer yr anrhydeddau deilyngu Cymorth Rhodd fydd yn ychwanegu 25 y cant i'ch cyfraniad heb unrhyw gost ychwanegol i chi.



## 2 Dwedwch wrth bawb!

Un o'r ffyrdd hawsaf o wneud gwahaniaeth i Apêl Gŵyl 2028 ar gyfer Seiri Rhyddion a'u teuluoedd, yw trwy ddweud wrth bobl am waith yr SES.

Nid cyfle i godi arian yn unig a gawn trwy gefnogi'r Ŵyl, cawn hefyd gyfle ardderchog i godi ymwybyddiaeth aelodau o'r Gymuned Saryddol Gogledd Cymru o waith yr SES. Gellir sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael pe byddai angen arnynt trwy gysylltu â'r SES.

Am fwy o wybodaeth am waith yr SES yn eich rhanbarth:

**impact.mcf.org.uk/2021/ how-we-helped-your-local-community**

### Ewch ar lein

Cadwch mewn cyswllt hefo'r newyddion diweddaraf am waith yr SES trwy danysgrifo i'r cylchlythyr neu ddilyn ar y cyfryngau cymdeithasol. Trwy gysylltu â'r SES ar lein gellir fynegi barn ar storiau a'u rhannu hefo teulu a ffrindiau. Byddai hyn yn ddull gwych o rannu gwybodaeth.

### Ewch allan ar hyd a lled

Mae gan yr SES ystod eang o adnoddau gan gynnwys pamffledi, posteri, banneri anerchiadau ac ati i'ch galluogi i godi ymwybyddiaeth ymysg Seiri Rhyddion a'r gymuned ehangach.

Trowch i dudalen yr SES ar adnoddau a chyhoeddiadau am fwy o wybodaeth:

**mcf.org.uk/resources**

**mcf.org.uk/sign-up**
**@themcf**
**@Masonic_Charity**
**@masonic_charity**
**/MasonicCharitableFoundation**



DIRECT Debit

### Gwarant y Debyd Uniongyrchol

- Mae'r warant hwn yn cael ei gynnig gan yr holl fanciau a'r cymdeithasau adeiladu sy'n derbyn cyfarwyddyd i dalu Debyd Uniongyrchol.
- Os bydd unrhyw newid i'r swm, dyddiad neu amlder eich Debyd Uniongyrchol, bydd Y Brif Elusen o'r Brif Gyfrinfa Unedig Lloegr yn cysylltu deng niwrnod gwaith cyn i arian ddod o'ch cyfrif neu yn unol â'ch cytundeb. Os gwneir cais i Brif Elusen o Brif Gyfrinfa Unedig Lloegr gasglu taliad, fe roddir ar y pryd gadarnhad o'r swm a'r dyddiad.
- Os gwneir camgymeriad yn eich taliad gan Brif Elusen o'r Brif Gyfrinfa Unedig Lloegr, neu eich banc neu gymdeithas adeiladu, mae gennych hawl i ad-daliad llawn ar unwaith o'r swm a dalwyd o'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. O dderbyn ad-daliad nad ydych yn haeddiannol ohono disgwylir i chi ei dalu yn ôl pan ofynnir amdano gan Brif Elusen o Brif Gyfrinfa Unedig Lloegr.
- Gellir diddymu Debyd Uniongyrchol ar unrhyw adeg trwy gysylltu hefo'ch banc neu gymdeithas adeiladu. Efallai bydd angen cadarnhad ysgrifenedig. Gadewch i ni wybod hefyd os gwelwch yn dda.

Dioddefodd John, Saer Rhydd Gogledd Cymru dros ddeng mlynedd hir gyda phroblemau hefo'i ben-glin. Yn y diwedd, bu i'r problemau oedd ganddo, achosi iddo orfod newid swyddogaeth ei waith ac atal rhag gyrru – yn golygu

"Roeddwn yn isel iawn o golli incwm ac o'r herwydd yn effeithio ar fy nheulu a'm bywyd cymdeithasol. Penderfynais ofyn am gymorth yr SES trwy Elusennwr fy Nghyfrinfa. 'Roedd yr ymateb a gefais yn gymaint mwy nag a ddisgwyliwn; daeth Gwirfoddolwr Ymweliadol ataf a'm cynorthwyo hefo'r gwaith papur. O fewn ychydig amser death yr SES i gyswllt a chytuno i dalu am fy llawdriniaeth-gadawodd hyn i mi allu dychwelyd i'r gwaith ac i yrru unwaith yn rhagor."

"Dwy flynedd yn ddiweddarach, dechreuodd fy mhen-glin chwith roi trafferth i mi yn yr un modd. Unwaith eto daeth yr SES i'r adwy trwy roddi cymorth i mi dalu am lawdriniaeth arall."

Am fwy o hanesion personol o effaith gadarnhaol yr SES ar fywydau pobl, yna trowch i:

**mcf.org.uk/real-life-stories**



> *Ni allaf ddiolch digon i'r SES. Mae'r cymorth a'r gefnogaeth dderbyniais ganddynt wedi newid fy mywyd er gwell. Diolch, SES"*
>
> **John, Saer Rhydd**

# Cefnogaeth i Seiri Rhyddion a'u teuluoedd

Gall yr SES gynnig ystod eang o gymorth a chefnogaeth ar gyfer materion ariannol, iechyd, teuluol ac anghenion cysylltiedig â gofal gan gynnwys:

### Costau byw dyddiol

- Ōl-ddyled cartref
- Cefnogaeth rhentu ac ernes blaendal
- Atgyweirio cartref brys
- Ailosod boeler
- Cyfarpar gwyn a dodrefn
- Costau angladd
- Costau gofal plant

### Iechyd, gofal a Lles

- Ymgynghoriad cychwynnol
- Profion ymchwiliol a sganiau
- Llawfeddygaeth
- Ffisiotherapi
- Therapi trwy law
- Therapi lleferydd
- Asesiadau therapi galwedigaethol
- Cyfarpar symudedd
- Addasiadau cartref
- Cefnogaeth cerbyd symudedd
- Gwaith deintyddol
- Cefnogaeth iechyd meddwl
- Seibiant byr i ofalwyr

### Plant, pobl ifanc ac addysg

- Cyfarpar cyfrifiadurol
- Asesiadau addysgol
- Costau ysgol- mewn amgylchiadau eithriadol
- Addysg Uwch
- Prentisiaeth
- Costau gofal plant
- Cefnogaeth i ddawn eithriadol

Nid yw'r uchod yn rhestr drwyadl o'r gefnogaeth sydd ar gael, ac mae pob cefnogaeth yn cael ei ystyried achos wrth achos.



### A all yr SES eich cynorthwyo chi?

Am gyngor ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael, cymhwystra a sut i wneud cais, siaradwch hefo Elusennwr eich Cyfrinfa neu cysylltwch hefo tîm ymholiadau'r SES heddiw:

**0800 035 60 90**

**help@mcf.org.uk**

**mcf.org.uk**

**Yn adeiladu bywydau gwell**
60 Great Queen Street | London | WC2B 5AZ
Tel: 020 3146 3333 | info@mcf.org.uk
**mcf.org.uk**

Rhif yr elusen 1164703. Rhif y cwmni 09751836.

## Cadwch yn gyfredol hefo'r newyddion am Apêl Gŵyl 2028 Gogledd Cymru:

- **nwmasons.org**
- **@PGLNorthWales**
- **@PGLNorthWales**
- **@PGLNorthWales**



Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol: **#FEST2028**